OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 64

# Rheoliadau Cynhyrchion Penodedig o Tsieina (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2012

**Diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Penodedig o Tsieina (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion Penodedig o Tsieina (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008(**1**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (7).

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli) —

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle'r diffiniad o "Penderfyniad y Comisiwn" rhodder y diffiniad a ganlyn—

"ystyr "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2011/884/EU ar fesurau brys ynghylch reis a addaswyd yn enetig heb awdurdod mewn cynhyrchion reis sy'n tarddu o Tsieina a hwnnw'n Benderfyniad sy'n diddymu Penderfyniad 2008/289/EC(**2**);";

(ii) hepgorer y diffiniad o "rhoi gyntaf ar y farchnad";

(iii) yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor mewnosoder y diffiniad a ganlyn —

"mae i "rhoi ar y farchnad" yr ystyr a roddir i "*placing on the market*" yn Erthygl 3.8 o Reoliad 178/2002;", a

(iv) yn y diffiniad o "cynnyrch penodedig", yn lle "yr Atodiad" rhodder "Atodiad I"; a

(b) mewnosoder y paragraff canlynol yn union ar ôl paragraff (2) —

"(3) Mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir ym Mhenderfyniad y Comisiwn ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn â'r ystyr sydd i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol hwnnw ym Mhenderfyniad y Comisiwn.".

(3) Yn lle'r pennawd i reoliad 3 (cyfyngiad ar roi cynhyrchion penodedig gyntaf ar y farchnad) a pharagraff (1) ohono, rhodder y canlynol —

"**Cyfyngiad ar roi cynhyrchion penodedig ar y farchnad**

**3.**—(1) Gwaherddir rhoi unrhyw gynnyrch penodedig ar y farchnad—

(a) oni chydymffurfiwyd ag amodau a bennir yn Erthygl 4 o Benderfyniad y Comisiwn mewn perthynas â'r cynnyrch; a

(b) oni bai bod llwyth y cynnyrch penodedig wedi ei rannu yn dilyn rheolaeth swyddogol, a bod copi dilysedig o'r dystysgrif iechyd a'r adroddiad dadansoddiadol yn dod gyda phob rhan o'r llwyth rhanedig.".

(4) Mae rheoliad 4 (hysbysu am ganlyniadau cadarnhaol) wedi ei hepgor.

(**1**) O.S. 2008/1080 (Cy.114).
(**2**) OJ Rhif L343, 23.12.2011, t.140.

(5) Yn lle paragraff (4) o reoliad 5 (gorfodi) rhodder y canlynol —

"(4) Y gofynion yw'r rhai a bennir yn —

(a) Erthygl 5 o Benderfyniad y Comisiwn (sy'n ymwneud â'r amodau y caniateir i gynhyrchion penodedig gael eu rhoi ar y farchnad odanynt, y rheolaethau swyddogol sydd i'w cyflawni a'r mesurau sydd i'w cymryd parthed llwythi nad ydynt yn cydymffurfio); a

(b) brawddeg gyntaf Erthygl 7 o'r Penderfyniad hwnnw (sy'n ymwneud â rheoli rhannu llwythi).".

(6) Ym mharagraff (b) o reoliad 6 (cymhwyso darpariaethau amrywiol Deddf Diogelwch Bwyd 1990), yn lle "rhoi gyntaf ar y farchnad" rhodder "rhoi ar y farchnad".

(7) Mewnosoder y rheoliadau canlynol yn union ar ôl rheoliad 6 —

"**Treuliau sy'n deillio o reolaethau swyddogol**

**7.** Bydd treuliau a godir gan awdurdod bwyd anifeiliaid neu awdurdod bwyd ar weithredwr yn unol ag Erthygl 8 o Benderfyniad y Comisiwn yn daladwy gan y gweithredwr ar archiad ysgrifenedig yr awdurdod.

**Darpariaeth drosiannol**

**8.** Nid yw'r gwaharddiad yn rheoliad 3(1) yn gymwys mewn perthynas â unrhyw gynnyrch penodedig a adawodd Tsieina cyn 1 Chwefror 2012 ar yr amod —

(a) bod y gwaith samplu a dadansoddi wedi ei wneud yn unol ag Erthygl 4(3) o Benderfyniad y Comisiwn; a

(b) na fyddai rhoi'r cynnyrch ar y farchnad wedi bod yn dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn fel yr oeddent yn sefyll yn union cyn i Reoliadau Cynhyrchion Penodedig o Tsieina (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2012 ddod i rym.".